



Nos Fawrth, 19 Tachwedd 2024 – 7.30yh  
Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Fawrth 19 Tachwedd 2024** am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiad o fuddiant
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
5. Gwaith ffordd SP Energy
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad cyltidol
8. Ffioedd archwilio
9. Materion cynllunio
10. Materion eraill

**Presennol:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies (Is Gadeirydd)  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Cadeirydd)  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cyngorydd Sir)

**Ymddiheuriadau:**

Geraint Thomas

**Datganiad o fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

**Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **12 Medi 2024** fel rhai cywir, Wil Edwards yn cynnig ac Eifion Davies yn eilio.

Minutes of a meeting held on **Tuesday 19 November 2024** at 7.30 at Salem Vestry, Penmachno

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interest
3. Confirmation of the minutes from the previous meeting
4. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
5. SP Energy roadworks
6. Correspondence
7. Financial report
8. Audit fees
9. Planning applications
10. Any other business

**Present:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies (Deputy Chairperson)  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Chairperson)  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)

**Apologies:**

Geraint Thomas

**Declaration of interest**

There were no declarations

**Confirmation of the minutes**

The minutes of the **12 September 2024** meeting were accepted as a true record, proposed by Wil Edwards and seconded by Eifion Davies.

## Materion yn codi:

**Toiled Cyhoeddus:** Adroddwyd bod y nenfwd wedi'i ailbeintio ond oherwydd llwyth gwaith presennol y Clerc, ni fu amser i gael prisiau ar gyfer y llawr. Y gobaith oedd y bydd llawr newydd yn cael ei osod yn y flwyddyn newydd.

**Cyffordd Ffordd Grenyn gyda'r B4406:** Adroddwyd nad yw'r Cyngor Sir wedi gosod drych o hyd. Penderfynwyd cysylltu â nhw eto.

**Llwybr Cyhoeddus 55 – Y Waen:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi gorffen gwaith atgyweirio. Penderfynwyd cysylltu â Cartrefi Conwy ynglŷn â thorri'r gwrych.

**Pontrhydgynon / Pont Rufeinig:** Adroddwyd bod CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi codi ffensys ac arwyddion ar ddwy ochr y bont.

**Diffibrilwyr:** Adroddwyd bod y Clerc yn aros am bris gan y Cyngor Sir am gysylltiad trydanol. Roedd trafodaeth wedi digwydd am leoli diffibriliwr yn y blwch ffôn ym Machno Terrace ond mae'r blwch yn dal i gael ei ddefnyddio fel ffôn cyhoeddus.

**Agoriad Newydd ar Ffordd Glasgwm:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir yn rhannu pryderon am y fynedfa newydd. Fel ffordd gyda nifer o ddosbarthiadau, mae'r mater wedi cael ei gyfeirio at Awdurdod y Parc.

**Stad yr Ymadawedig:** Adroddwyd bod cwmni yn delio â'r ystâd. Penderfynwyd ceisio cysylltu â'r cwmni i gynnig cymorth.

**Arwyneb Anwastad – Teras Llywelyn:** Adroddwyd nad oes unrhyw atgyweiriadau wedi eu gwneud. Penderfynwyd cysylltu â Cartrefi Conwy eto.

**Dympio Asffalt:** Adroddwyd nad oes gan CNC unrhyw broblem gyda SP Energy yn dympio asffalt mewn caeau dros dro ar yr amod bod yr asffalt yn cael ei dynnu a bod y caeau'n cael eu dychwelyd i'w cyflwr arferol.

**Bws Ysgol:** Adroddwyd bod plant yn dal i orfod eistedd ar lawr bws yr ysgol er gwaethaf sicrwydd gan y Cyngor Sir. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto.

## Gwaith Ffordd SP Energy

Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad o holl waith y clerch dros yr wythnosau diwethaf yn cysylltu â SP Energy

## Matters arising:

**Public Toilet:** It was reported that the ceiling had been repainted but due to the Clerk's current workload, there had not been time to obtain quotes for the floor. It was hoped that a new floor will be installed in the new year.

**Grenyn Road Junction with B4406:** It was reported that the County Council have still not installed a mirror. It was decided to contact them again.

**Footpath 55 – Y Waen:** It was reported that the County Council had finished repairs. It was decided to contact Cartrefi Conwy about cutting the hedge.

**Pontrhydgynon / Roman Bridge:** It was reported that NRW and the National Trust have erected fences and signs on both sides of the bridge.

**Defibrillators:** It was reported that the Clerk is waiting for a price from the County Council for an electrical connection. Discussion had taken place about locating a defibrillator in the telephone box at Machno Terrace but the box is still in use as a public telephone.

**New Entrance on Glasgwm Road:** It was reported that the County Council share concerns about the new entrance. As a road with multiple classifications, the matter has been referred to the Park Authority.

**Deceased's Estate:** It was reported that a company is dealing with the estate. It was decided to try to contact the company to offer assistance.

**Uneven Surface – Llywelyn Terrace:** It was reported that no repairs have been made. It was decided to contact Cartrefi Conwy again.

**Dumping of Asphalt:** It was reported that NRW have no problem with SP Energy dumping asphalt in fields temporarily provided that the asphalt is removed and the fields are returned to their normal state.

**School Bus:** It was reported that children are still having to sit on the floor of the school bus despite assurances from the County Council. It was decided to contact the County Council again.

## SP Energy Roadworks

The Chairman expressed appreciation for all the clerk's work over the last few weeks contacting SP Energy and

a'r contractwyr ac yn lledaenu gwybodaeth i'r gymuned ac ategwyd hynny gan yr aelodau.

Adroddwyd bod SP Energy yn bwriadu parhau i gladdu cebl foltedd uchel newydd o dan y B4406, gan stopio adeg y Nadolig a dechrau eto ym mis Ionawr 2025. Mynegwyd pryder am y gwyriad ar hyd Ffordd Hafod Rhedwydd i Ffestiniog. Penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda SP Energy, eu contractwyr a'r Cyngor Sir.

## Gohebiaeth

**Mainc ar gyfer Mynwenta Arwelfa:** Adroddwyd bod aelod o'r cyhoedd wedi gofyn a allai'r Cyngor ddarparu mainc i ymwelwyr. Penderfynwyd ceisio cyllid grant.

**Dathliad Nadolig:** Adroddwyd bod sawl aelod o'r cyhoedd wedi gofyn a allai'r Cyngor drefnu dathliad Nadolig gyda digwyddiad i droi goleuadau'r Nadolig ymlaen. Cytunwyd i wario £150 ar goeden Nadolig ac adroddwyd bod Awdurdod y Parc wedi cytuno ar grant ar gyfer y digwyddiad.

**Llwybrau Cyhoeddus, Cwm Penmachno:** Adroddwyd bod cynghorydd wedi derbyn llythyr yn gwneud datganiadau a chyhuddiadau amrywiol ynghylch cynghorydd etholedig arall ac am llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.

## Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi.

Adroddwyd nad oedd gan drefnydd angladdau lleol ddigon o arian ar hyn o bryd i dalu am gladdedigaeth.

Cytunwyd bod popeth arall mewn trefn.

## Ffioedd Archwilio

Adroddwyd bod Archwilio Cymru yn gyson yn methu â chyfathrebu gyda'r cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd archwiliad diweddar wedi cael ei filio ar lefel sy'n briodol ar gyfer cyngor gyda chyllideb o fwy na £500,000. Penderfynwyd adrodd Archwilio Cymru i Gomisiynydd y Gymraeg a chysylltu ag Un Llais Cymru am gyngor cyfreithiol.

the contractors and disseminating information to the community which was echoed by members.

It was reported that SP Energy plan to continue burying a new high-voltage cable under the B4406, stopping at Christmas time and starting again in January 2025. Concern was expressed about the diversion along Hafod Rhedwydd Road to Ffestiniog. It was decided to arrange a meeting with SP Energy, their contractors and the County Council.

## Correspondence

**Bench for Arwelfa Cemetery:** It was reported that a member of the public had asked whether a bench could be provided for visitors. It was decided to seek grant funding.

**Christmas Celebration:** It was reported that several members of the public had asked whether the Council could coordinate a Christmas celebration with an event to switch on the Christmas lights. It was agreed to spend £150 on a Christmas tree and reported that the Park Authority had agreed a grant for the event.

**Public Footpaths, Cwm Penmachno:** It was reported that a councillor had received a letter making various statements and accusations regarding another elected councillor and about public footpaths. It was decided to make further enquiries.

## Financial Report

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis.

It was reported that a local funeral director had insufficient funds at present to pay for a burial.

It was agreed that everything else was in order.

## Audit Fees

It was reported that the Audit Wales consistently fail to communicate with the council through the medium of Welsh. A recent audit had been billed at a level appropriate for a council with a budget of more than £500,000. It was decided to report Audit Wales to the Welsh Language Commissioner and contact One Voice Wales for legal advice.

## Materion Cynllunio

**Hwb Penmachno:** Adroddwyd bod y cyngor wedi ysgrifennu i gefnogi cais cynllunio ar gyfer Hwb Penmachno.

## Materion eraill

**Bryn Madoc:** Adroddwyd bod ceir sydd wedi parcio yn y ffordd yn ei gwneud yn amhosib i'r lori graeanu fynd heibio.

**Gwrych:** Adroddwyd bod gwrych wedi gordyfu rhwng Glanypwll a'r ysgol yn ei gwneud hi'n anodd defnyddio'r palmant. Penderfynwyd adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

## Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos iau 09 Ionawr 2025, 7.30 yn Festri Capel Salem.

## Planning

**Hwb Penmachno:** It was reported that the council had written in support of a planning application for Hwb Penmachno.

## Other matters

**Bryn Madoc:** It was reported that cars parked in the road are making it impossible for the gritting lorry to pass.

**Hedge:** It was reported that an overgrown hedge between Glanypwll and the school is making it difficult to use the pavement. It was decided to report the matter to the County Council.

## Next meeting

The next meeting of the Council will be held on Thursday 09 January 2025, 7.30 at Capel Salem Vestry.